hamddenamoes
leisureforlife

# Astudiaeth Achos

## Datblygu lleoedd - Cae 3G Baglan

Dewiswyd cae Baglan ym Mhenyrenglyn yn lleoliad ar gyfer cau 3G newydd gan ei fod yn agos at Ysgol Gyfun Treorci, Ysgol Gynradd Penyrenglyn ac ysgolion cynradd eraill yng nghlwstwr Treorci. Y gred oedd y byddai'r cae newydd sy'n addas ar gyfer pob math o dywydd yn fuddiol iawn i'r ysgolion yn ogystal â sawl clwb chwaraeon cymunedol. Roedd hefyd diffyg cyfleusterau pêl-droed o ansawdd yn yr ardal, ac roedd hynny'n atal clybiau rhag cyrraedd cynghreiriau uwch. Mae'r Cyngor, ynghyd â chyllid gan Cymru Football Foundation mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU, wedi gwario dros £1 miliwn i ddatblygu cau pêl-droed gwair heb lifoleuadau yn gae pêl-droed safon cynghrair gyda llifoleuadau a thri chae bach wedi'u goleuo. Mae gosod haen o ddeunydd gwrth-sioc hefyd yn golygu bod modd cynnal sesiynau hyfforddi rygbi cyswllt llawn ar y cae. Cae Baglan yw'r cyfleuster olaf yn rhan o ymrwymiad y Cyngor i ddarparu cae 3G o fewn 3 milltir o bob preswylydd a sefydlu cyfleusterau cymunedol mae modd eu defnyddio drwy'r flwyddyn.

Mae clybiau chwaraeon yn defnyddio cau 3G Baglan bob dydd o'r wythnos er mwyn cynnal sesiynau hyfforddi a gemau. Mae'r clybiau yma'n cynnwys Clwb Rygbi Treorci, Clwb Pêl-droed Baglan, Clwb Bechgyn a Merched Treherbert, Clwb Bechgyn a Merched Cymru, Clwb Rygbi Treherbert, Rygbi Ysgolion Cwm Rhondda ac ail dîm Albions Ynys-hir. Mae clybiau wedi ffynnu ers cael cae o'r radd flaenaf i'w ddefnyddio gan fod modd iddyn nhw gynnal achlysuron chwaraeon mewn unrhyw dywydd. Mae timau hŷn, ieuenctid, iau a bach Clwb Bechgyn a Merched Treherbert yn defnyddio'r cae i gynnal sesiynau hyfforddi a gemau. Mae cynnydd wedi bod yn nifer y chwaraewyr pob oed ym mhob clwb, ac mae hynny wedi arwain at sefydlu tîm merched cyntaf y clwb. Yn ogystal â rhagor o chwaraewyr, mae rhagor o bobl wedi gwirfoddoli i fod yn hyfforddwyr, ac mae'r clwb yn diolch i'r cyfleuster newydd am hynny.

Mae'r tri chae bach yn cael eu defnyddio bob dydd gan Ysgol Penyrenglyn, a nhw sy'n cael dewis cyntaf ar eu defnyddio nes 5pm yn ystod yr wythnos trwy gydol tymor yr ysgol. Mae disgyblion yn defnyddio'r caeau yn ystod amser egwyl, gwersi addysg gorfforol a chlybiau ar ôl ysgol. Mae'r ysgol yn hoff iawn o gael mynediad at y cyfleuster yma ac mae rhagor o blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ac ymarfer corff oherwydd hynny. Mae Ysgol Gyfun Treorci yn defnyddio'r cae yn gyson i gynnal gemau pêl-droed, ac mae sawl ysgol leol arall wedi manteisio ar y cae i gynnal achlysuron, twrnameintiau a gwyliau clwstwr.

Yn dilyn ychydig o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y safle, mae Gwasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid wedi datblygu prosiect ar gyfer pobl ifainc rhwng 11 ac 16 oed. Mae ymgynghoriad â phobl ifainc leol wedi amlygu'r angen am safle diogel gyda llifoleuadau i gymryd rhan mewn chwaraeon, dysgu sgiliau newydd a chwrdd â phobl ifainc eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r farn nad oedden nhw'n ddigon da i ymuno â chlwb chwaraeon ond yn awyddus i roi cynnig ar gampau mewn lleoliad anffurfiol. Mae'r sesiynau yma'n cael eu cynnal bob nos Fawrth ac mae oddeutu 45 person yn mynychu yn wythnosol. Mae hyfforddwyr Chwaraeon RhCT yn cynnal y sesiynau ynghyd â gweithwyr ieuenctid, ac maen nhw wedi gwahodd asiantaethau eraill megis Barod i ymgysylltu â'r bobl ifainc.

"Mae'r cae wedi bod yn fuddiol iawn i ni. Mae ein niferoedd wedi dyblu o gymharu â blynyddoedd diweddar ac mae nifer yr hyfforddwyr wedi cynyddu. Rwy'n credu bod hyn wedi digwydd gan fod pobl yn awyddus i ddefnyddio'r cyfleuster. Roedd recriwtio rhagor o hyfforddwyr yn hanfodol fel bod modd i ni sefydlu rhagor o dimau a denu aelodau newydd. Mae ein tîm hŷn wedi cael llawer o lwyddiant dros y blynyddoedd diwethaf, ond yn anffodus doedd dim cyfleuster yn yr ardal leol a oedd yn bodloni meini prawf FAW. Diolch i'r cyfleuster newydd rydyn ni wedi gallu dechrau chwarae yn ein cymuned leol eto a chael cae i'w alw yn gartref i'r clwb." – Hyfforddwr, Clwb Bechgyn a Merched Treherbert

"Mae'r disgyblion yn hoff iawn o ddefnyddio'r cyfleusterau yn ystod amser egwyl. Maen nhw'n rhedeg o'r ystafell ddosbarth ac yn methu aros i gyrraedd y cae. Maen nhw'n teimlo'n gyfforddus iawn ar y cae - rwy' wedi gweld mwy o 'cartwheels' a 'round offs' dros y mis diwethaf na'r 14 mlynedd diwethaf fel athrawes. Mae dau o'n disgyblion sydd angen cymorth i gerdded wedi gallu cymryd rhan gyda'u cyfoedion gan fod hygyrchedd y cae mor wych."– Athrawes, Ysgol Gynradd Penyrenglyn

"Ers dod yma i chwarae pêl-droed, rwy'n cymryd rhan mewn rhagor o weithgareddau gyda Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, fel clwb ieuenctid bob nos Fercher. Mae Amy'n dweud bod fy ymddygiad wedi gwella yn yr ysgol." – Cyfranogwr Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid

RHONDDA CYNON TAF